# Dogfen ir Cyhoedd

Dr. Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD | | DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE |
| DYDD MERCHER,<br>30 MEDI 2015 am 2.00 o'r gloch y.p. | | WEDNESDAY,<br>30 SEPTEMBER, 2015 at 2.00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1,<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1,<br>COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Shirley Cooke<br>01248 752514 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol / Independent**

D R Hughes, Victor Hughes, Richard Owain Jones a Dafydd Rhys Thomas

**Llafur / Labour**

J A Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Vaughan Hughes (Cadeirydd/Chair), R.Meirion Jones, R G Parry OBE a Dylan Rees

**Grwp Chwyldroad / Revolutionist Group**

Peter S. Rogers

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mawrth, 2015.

4 **GWE-DDARLLEDU CYFARFODYDD** (Tudalennau 5 - 8)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

5 **ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU** (Tudalennau 9 - 12)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

6 **SICRHAU DEMOCRATIAETH AMRYWIOL** (Tudalennau 13 - 14)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

7 **RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2015/16** (Tudalennau 15 - 16)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mawrth, 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Richard O Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Victor Hughes, R Meirion Jones, R G Parry, OBE, Dylan Rees, Dafydd Rhys Thomas |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Gwnaeth Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd ddatganiad o ddiddordeb yn Eitem 7 ar y rhaglen ac aeth allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth arni.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr, 2015.

**3 PANEL ANNIBYNNOL AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2015/16**

Cyflwynwyd – adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd ar Adroddiad Blynyddol y PAGA am 2015/16.

Nododd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd y byddai'r mater yn cael ei drafod gan y Cyngor llawn ym mis Mai 2015 ar gyfer ei gymeradwyo.

Cyfeiriodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democratiadd at y disgresiwn sydd ar gael mewn perthynas â lwfansau'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ac y byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gydag Arweinyddion y Grwpiau cyn cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor Sir.

Yn ogystal, cyfeiriodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd at yr angen i adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael i aelodau mewn meysydd penodol megis TG fel y gallant gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r penderfyniadau a wnaed gan y PAGA mewn perthynas â chymorth i aelodau yn 2015/16;**
- **Bod Adroddiad Blynyddol y PAGA yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Mai, 2015;**
- **Rhoi'r awdurdod i Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd mofyn sylwadau'r Aelodau ar ba mor ddigonol yw'r cymorth sydd ar gael i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Adroddir yn ôl i'r pwyllgor ar y mater hwn fel rhan o'i raglen waith am 2015/16.**

## 4 ADRODDIADAU BLYNYDDOL YR AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd ar Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau am 2014/15.

Nododd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd fod adroddiad cynnydd wedi cael ei gyflwyno i'r cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn yn gofyn am sylwadau'r Aelodau ar y trefniadau arfaethedig ar gyfer paratoi Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau am 2014/15.

Yn ogystal, dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd y cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Safonau ar 12 Mawrth 2015 mewn perthynas ag adolygiad o gofrestrau'r Cyngor a bod angen diweddaru'r wybodaeth sydd ar wefan y Cyngor ynghylch aelodaeth o gyrff allanol. Roedd sgôp i gynnwys gwybodaeth am gyrff allanol yn Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac y dylid nodi ym mhob adroddiad blynyddol y rhestr o gyrff allanol sy'n berthnasol i'r aelod dan sylw, ynghyd â nifer y cyfarfodydd a drefnwyd ac a fynychwyd - yr aelodau unigol fydd yn darparu'r wybodaeth hon.**

## 5 GWEDDARLLEDU CYFARFODYDD

Cyflwynwyd - adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol yn crynhoi gwybodaeth ynghylch gweddarlledu cyfarfodydd. Rhoes ddiweddariad i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 2 Rhagfyr, 2014.

Cyflwynodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd ddadansoddiad o'r wybodaeth ystadegol ar y nifer a oedd wedi edrych ar ddarllediadau o gyfarfodydd rhwng Mehefin 2014 a Chwefror 2015 a gwelwyd bod 15,000 o ymweliadau yn ystod cyfnod hwn.

Fel rhan o'i raglen waith ar gyfer 2015/16, dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd y bydd angen i'r Pwyllgor ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol o ran gweddarlledu cyfarfodydd, oherwydd daw'r cynllun peilot 2 flynedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ben ym mis Mawrth 2016. Dywedodd y byddai'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar opsiynau ar gyfer y dyfodol a dywedodd na fyddai unrhyw gyllid ar gael wedi i'r cyfnod peilot ddod i ben. Dywedodd y byddai costau'n gysylltiedig ag adnoddau a staffio.

Cyfeiriodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd at y Papur Gwyn i ddiwygio Llywodraeth Leol yng Nghymru a’r bwriad i orfodi awdurdodau i ddarlledu cyfarfodydd yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac y bydd adroddiad ar weddarlledu’n cael ei gyflwyno i’r cyfarfod nesaf.**

**6 <u>CAU ALLAN Y WASG A’R CYHOEDD</u>**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu’r canlynol:-**

**“Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno’n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn unol ag Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”**

**7 PENODI PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Cyflwynwyd – dyfyniad o gofnodion y Pwyllgor Penodiadau a gynhaliwyd ar 27 Ionawr, 2015 ynghyd ag adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro a gyflwynwyd i’r Pwyllgor uchod.

**PENDERFYNWYD cadarnhau’n ffurfiol benodi Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd i swydd barhaol Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ar y cyflog a nodir yn yr adroddiad.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.30 pm

**Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ENW’R PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **30 MEDI 2015** |
| **TEITL:** | **GWEDDARLLEDU** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **MOFYN BARN Y PWYLLGOR AR WEDDARLLEDU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |

## 1.0 Cefndir a Chyd-destun

1.1 Fel rhan o raglen Llywodraeth Cymru i foderneiddio llywodraeth leol a hyrwyddo tryloywder, derbyniodd pob Awdurdod Lleol yng Nghymru grant unwaith ac am byth o £40k tuag at weddarlledu cyfarfodydd. Cafwyd cadarnhad nad oes unrhyw ymrwymiad i gyllido costau cysylltiedig yn y dyfodol.

1.2 Mae’r Cyngor Sir wedi dyfarnu contract 2 flynedd i Public- i (sy’n darparu gwasanaeth gweddarlledu ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau yng Nghymru). Daw’r contract cyfredol i ben ym mis Mawrth 2016.

1.3 Mae’r Cyngor wedi cytuno i arbrofi gyda gweddarlledu:

Y Cyngor Sir
Y Pwyllgor Gwaith
Y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion

1.4 Mewn perthynas â’r cyfarfodydd sy’n cael eu darlledu’n fyw, mae’r sefyllfa’n debyg ar hyd a lled Cymru – gyda’r rhan fwyaf o awdurdodau naill ai’n gweddarlledu’r cyfarfodydd uchod neu gyfuniad ohonynt.

1.5 Cychwynnwyd gweddarlledu cyfarfodydd ym mis Mehefin 2014 gyda’r Pwyllgor Gwaith a hynny’n dilyn cyfnod o arbrofi a hyfforddi staff.

1.6 Cyflwynwyd adroddiadau cynnydd i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ers ymestyn y cynllun peilot gan ddarparu ystadegau ynghylch nifer yr ymweliadau. At ei gilydd ac fel y gwelir o’r dadansoddiad diweddaraf, mae’r ffigyrau gwylio yn galonogol yn enwedig pan fo materion penodol sydd o ddiddordeb i’r cyhoedd yn

cael eu trafod yn y pwyllgorau. Mae'r dadansoddiad yn **Atodiad 1** yn dangos y cafwyd dros 32,000 o ymweliadau (naill ai'n fyw neu o'r archif).

1.7 Mae'n amlwg fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dymuno gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg er mwyn hyrwyddo tryloywder a newid diwylliannol mewn llywodraeth leol. Mae'r Papur Gwyn ar Ddiwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol (Chwefror 2015) yn cyfeirio'n benodol at gyflwyno deddfwriaeth yn y dyfodol sy'n golygu y bydd rhaid i Awdurdodau Lleol ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor Llawn a'r Pwyllgor Gwaith ar-lein er mwyn annog darllediad pwyllgorau eraill.

## 2.0 Cyd-destun cyfredol

2.1 Mae'r contract cyfredol yn seiliedig ar ddarlledu 90 o oriau'r flwyddyn. Roedd hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y byddai'r cyfarfodydd a restrir uchod yn parhau am hyd at 3 awr. Fodd bynnag, daeth yn amlwg fod hynny wedi ei or-amcan ac, yn gyffredinol, wedi asesu hyd cyfarfodydd yn ystod y 12 mis diwethaf, maent yn parhau am oddeutu awr a hanner. Mae'n bwysig nodi hefyd bod rhai cyfarfodydd neu rannau ohonynt yn cael eu cynnal yn breifat (yn enwedig cyfarfodydd arbennig lle trafodir un pwnc yn unig) ac o'r herwydd, ychydig iawn o weddarlledu sy'n cael ei wneud.

2.2 Ar hyn o bryd, gweddarlledir am oddeutu 40 awr sy'n llai o lawer na'r amcan gwreiddiol. Gall amrywiadau ddigwydd, e.e. pan mae cyfarfodydd yn parhau am fwy na 2 awr gan ddibynnu ar yr eitem dan drafodaeth a threfnu cyfarfodydd arbennig pan fydd pynciau'n cael eu trafod yn gyhoeddus.

2.3 Rhagdybir y bydd nifer o oriau nad ydynt wedi cael eu defnyddio ar ddiwedd y contract cyfredol a gellid trosglwyddo'r oriau hynny i 2016/17 i dalu'n rhannol y costau petai gweddarlledu'n parhau.

2.4 Dadansoddiad o nifer y cyfarfodydd yn ystod blwyddyn sirol 2015 /16:

| Cyfarfod | Nifer y cyfarfodydd |
|---|---|
| Cyngor | 5 |
| Pwyllgor Gwaith | 13 |
| Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | 12 |
| Cyfanswm | 30 x 1.30awr = 45 awr |

2.5 Nid yw'r nifer uchod o gyfarfodydd yn cynnwys unrhyw gyfarfodydd arbennig/eithriadol y mae'n rhaid eu cynnal. Gan ddibynnu ar farn y pwyllgor hwn ynghylch i ba raddau y dylid gweddarlledu yn y dyfodol, mae'r rhagdybiaethau'n

seiliedig ar oddeutu 50 awr o ddarlledu bob blwyddyn os yw'r trefniadau cyfredol am barhau gan ganiatáu ar gyfer rhai cyfarfodydd annisgwyl.

**3.0 Pwysau ar adnoddau a defnydd posibl**

3.1 Yn ogystal, mae goblygiadau staffio a phwysau ar amser y staff yn gysylltiedig â gweddarlledu. Rhaid i staff y Gwasanaethau Democrataidd fod yn bresennol yn yr holl gyfarfodydd sy'n cael eu gweddarlledu er mwyn gweithredu'r camerâu ac alinio'r microffonau.

3.2 Mae Arweinyddion y Grwpiau a'r Grŵp Uwch Arweinyddiaeth yn cefnogi parhau i weddarlledu'r cyfarfodydd sy'n rhan o'r cynllun peilot cyfredol er mwyn hyrwyddo tryloywder ac er mwyn bod yn agored o ran y modd y gwneir penderfyniadau.

3.3 Bydd angen adrodd ar yr agweddau ariannol i'r Pwyllgor Gwaith unwaith y bydd y Pwyllgor hwn wedi llunio barn ynglŷn â'r ffordd ymlaen. Nid oes cyllideb ar gael y tu draw i'r £7k (yn fras) a fydd ar gael o Grant Llywodraeth Cymru i gwrdd yn rhannol â chostau 2016/17.

3.4 Mae'r Swyddogion wedi cael yr orchwyl o ystyried opsiynau ar gyfer gweddarlledu cyfarfodydd a chostau hynny, e.e. defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i leihau costau.

**Argymhelliad**

Gofynnir am sylwadau'r Pwyllgor ar weddarlledu cyfarfodydd yn y dyfodol.

.

**Huw Jones**
**Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd**
**15/09/15**

**Atodiad 1**

**Y Pwyllgor Gwaith: Mehefin 2014 – Gorffennaf 2015**

| Dyddiad Cyfarfod | Byw | Archif | Cyfanswm yr Ymweliadau |
|---|---|---|---|
| 9 Mehefin, 2014 | 161 | 2854 | 3015 |
| 14 Gorffennaf, 2014 | 64 | 1363 | 1427 |
| 8 Medi, 2014 | 32 | 888 | 920 |
| 20 Hydref, 2014 | 25 | 462 | 492 |
| 3 Tachwedd, 2014 | 45 | 497 | 542 |
| 1 Rhagfyr, 2014 | 12 | 775 | 787 |
| 15 Rhagfyr, 2014 | 29 | 770 | 799 |
| 12 Ionawr, 2015 | 32 | 693 | 725 |
| 9 Chwefror , 2015 | 21 | 638 | 659 |
| 16 Chwefror, 2015 | 22 | 704 | 726 |
| 16 Mawrth, 2015 | 30 | 1527 | 1557 |
| 20 Ebrill, 2015 | 0 | 643 | 643 |
| 26 Mai, 2015 | 9 | 389 | 398 |
| 15 Mehefin, 2015 | 14 | 341 | 355 |
| 2 Gorffennaf, 2015 | 54 | 506 | 560 |
| 20 Gorffennaf, 2015 | 24 | 355 | 379 |

## Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion : Medi 2014 – Gorffennaf 2015

| Dyddiad Cyfarfod | Byw | Archif | Cyfanswm yr Ymweliadau |
|---|---|---|---|
| 3 Medi, 2014 | 32 | 1136 | 1168 |
| 1 Hydref, 2014 | 57 | 1108 | 1165 |
| 5 Tachwedd, 2014 | 42 | 757 | 799 |
| 3 Rhagfyr, 2014 | 32 | 775 | 807 |
| 7 Ionawr, 2015 | 63 | 1110 | 1173 |
| 4 Chwefror, 2015 | 26 | 814 | 840 |
| 4 Mawrth, 2015 | 32 | 1042 | 1074 |
| 1 Ebrill, 2015 | 26 | 714 | 740 |
| 13 Mai, 2015 | 72 | 656 | 728 |
| 3 Mehefin, 2015 | 110 | 995 | 1105 |
| 1 Gorffennaf, 2015 | 18 | 451 | 469 |
| 29 Gorffennaf, 2015 | 112 | 735 | 847 |

## Cyngor Sir Ynys Mon: Gorffennaf, 2014 – Mai, 2015

| **Dyddiad Cyfarfod** | **Byw** | **Archif** | **Cyfanswm yr Ymweliadau** |
|---|---|---|---|
| 29 Gorffennaf, 2014 | 28 | 1061 | 1089 |
| 30 Medi, 2014 | 74 | 676 | 750 |
| 9 Hydref, 2014 | No record | | |
| 4 Rhagfyr, 2014 (10:00am) | 82 | 700 | 782 |
| 4 Rhagfyr, 2014 (2:00pm) | 48 | 646 | 598 |
| 20 Ionawr, 2015 | 2 | 517 | 519 |
| 4 Chwefror, 2015 | 3 | 555 | 558 |
| 26 Chwefror, 2015 | 60 | 127 | 780 |
| 30 Mawrth, 2015 | 5 | 474 | 479 |
| 7 Ebrill, 2015 | 5 | 581 | 586 |
| 14 Mai, 2015 (10:30am) | 53 | 561 | 614 |
| 14 Mai, 2015 (2:00pm) | 32 | 639 | 671 |
| | | | Total **32325** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Pwyllgor: | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Dyddiad y cyfarfod: | 30 Medi 2015 |
| Teitl: | Adroddiadau Blynyddol gan Aelodau |
| Awdur: | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Pwrpas yr Adroddiad: | Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am gynnydd o ran cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol ar gyfer 2014/15 ynghyd â'r trefniadau arfaethedig ar gyfer Adroddiadau Blynyddol 2015/16. |

## 1.0 Cefndir

1.1 Rwyf wedi adrodd yn y gorffennol i'r Pwyllgor hwn mewn perthynas ag Adran 5 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 sy'n rhoi dyletswydd ar y Cyngor Sir i sicrhau bod trefniadau mewn lle i Aelodau gyflwyno adroddiad blynyddol ar eu gweithgareddau.

1.2 Fe gyflwynais adroddiad i'r ddau gyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn mewn perthynas â'r trefniadau arfaethedig o ran paratoi Adroddiadau Blynyddol Aelodau ar gyfer 2014/15.

## 2.0 Cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol ar gyfer 2014/15

2.1 Fe anfonwyd templed (gweler **Atodiad 1),** i bob Aelod unigol ar 2 Ebrill 2015. Roedd hyn yn hwyrach na'r amserlen wreiddiol (hy y drydedd wythnos ym mis Mawrth) a hynny er mwyn ein galluogi i gynnwys gwybodaeth am bresenoldeb mewn cyfarfodydd pwyllgorau hyd at ddiwedd Mawrth 2015.

2.2 Bellach, mae adroddiadau blynyddol yr holl Aelodau wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan ar y ddolen isod:

http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cynghorwyr/adroddiad-blynyddol-gan-gynghorydd/

2.3 Fodd bynnag, ni lwyddwyd i gyhoeddi'r holl adroddiadau o fewn yr amserlen wreiddiol, sef 30 Mehefin 2015. Bydd angen gofyn i'r Arweinyddion Grwpiau sicrhau bod Aelodau'n glynu wrth amserlen adroddiadau blwyddyn nesaf.

## 3.0 Cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol ar gyfer 2015/16

3.1 Bwriedir dilyn yr amserlen ganlynol ar gyfer cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol 2015/16:

- Cylchredeg templed i'r Aelodau - **erbyn 22 Ebrill 2016** (y templed i gynnwys manylion am bresenoldeb yr Aelod mewn prif bwyllgorau, is-bwyllgorau a chyfarfodydd cyrff allanol ynghyd ag unrhyw sesiynau dysgu a datblygu a fynychwyd).

- Aelodau i gyflwyno adroddiadau drafft i'r Gwasanaethau Democrataidd - **erbyn 20 Mai 2016.**

- Cwblhau a chyhoeddi'r adroddiadau ar wefan y Cyngor - **erbyn 30 Mehefin 2016**.

## 4.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor:

4.1 Nodi'r sefyllfa o ran cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol Aelodau ar gyfer 2014/15.

4.2 Gyflwyno sylwadau ar y trefniadau arfaethedig o ran cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol Aelodau ar gyfer 2015/16.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** **21 Medi 2015**

## Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2014/15

| |
|---|
| Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn. |
| **Cynghorydd:** |
| **Grwp:** **Ward:** |

### 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| **Rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **[1]Ffigyrau Presenoldeb** |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel ddeilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (wedi mynychu ….. cyfarfod).

| **Rwy'n cynrychiol'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:** | **Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd** | **Nifer a fynychwyd** |
|---|---|---|
| | | |
| | | |

### 2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

[1] Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

**4 - Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

**5 – Gweithgareddau a Materion Eraill**

| **Y Cynghorydd** | **Ebrill 2015** |
|---|---|

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **30 MEDI 2015** |
| **TEITL:** | **SICRHAU DEMOCRATIAETH AMRYWIOL MEWN LLYWODRAETH LEOL YNG NGHYMRU** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |

**1.0 Cefndir**

1.1 Cyflwynais adroddiad i'r Pwyllgor hwn ar 18 Mehefin 2014 mewn perthynas â'r Grŵp Arbenigol ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol a sefydlwyd gan y Gweinidog ar gyfer Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth. Rhoddwyd i'r Grŵp Arbenigol y dasg o edrych ar broffil Llywodraeth Leol a gwneud argymhellion ynghylch gwella amrywiaeth mewn llywodraeth leol yn yr etholiadau lleol yn 2017.

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi i'r Pwyllgor y diweddariad y gofynnodd amdano.

1.3 Mae gwaith y Grŵp Arbenigol wedi canolbwyntio ar:

- Gwella'r Arolwg o'r Ymgeiswyr Llywodraeth Leol

  (arolwg o ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus yn yr etholiadau sirol a chymunedol yn 2012)

- Mentora ar gyfer ymgeiswyr posibl yn yr etholiadau llywodraeth leol
- Datblygu ymgyrch gyhoeddusrwydd
- Gweithio gyda chyflogwyr
- Cefnogi ymgeiswyr anabl
- Cyfweliadau ymadael ar gyfer Cynghorwyr

1.4 Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi gwybodaeth ar-lein mewn perthynas â'r Rhaglen Fentora. Cafodd y Rhaglen ei lansio'n swyddogol ar 17 Medi, 2015. Bwriad y rhaglen yw cynnig i unigolion sydd â diddordeb mewn sefyll

etholiad, fynediad i gyfleon mentora, hyfforddiant a chefnogaeth ar sail un i un ac mewn grwpiau ynghyd â'r cyfle i gysgodi rhywun sydd eisoes yn Gynghorydd.

1.5 O ran yr Awdurdod hwn, y Cynghorydd Carwyn Jones yw'r Eiriolydd Amrywiaeth. Sefydlwyd rhwydwaith ar lefel Gogledd Cymru o Eiriolwyr Amrywiaeth i gefnogi gwaith y Grŵp Arbenigol. Mae'r dasg o roddi sylw i wahanol faterion yn cael ei wneud mewn cydweithrediad gyda Chymdeithas Llywodraeth Cymru ac Un Llais Cymru.

1.6 Wrth baratoi ar gyfer Etholiadau Lleol 2017 yn Ynys Môn, bydd gwybodaeth a gynhyrchwyd gan y Grŵp Arbenigol ar gael i ddarpar ymgeiswyr a bydd yn cael ei chynnwys ar wefan y Cyngor a'r cyfryngau cymdeithasol.

**2.0 Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

**Huw Jones**
**Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd**
**21/09/15**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **30 MEDI 2015** |
| **TEITL:** | **RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2015/16** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **TRAFOD Y RHAGLEN WAITH ARFAETHEDIG AR GYFER 2015/16** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |

1.0 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, yw adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth yn yr awdurdod o ran staff, swyddfeydd ac adnoddau eraill i gyflawni dyletswyddau a swyddogaethau'r gwasanaethau democrataidd.

1.1 Bydd yr Aelodau'n cofio y cyflwynwyd adroddiad ar waith y Pwyllgor yn ystod 2014/15 i'r Cyngor ar 14 Mai, 2015.

1.2 O ran y rhaglen waith ar gyfer 2015/16, argymhellir y dylid canolbwyntio ar y meysydd isod:

- Y Cynllun ar gyfer Datblygu a Hyfforddi Aelodau gan gynnwys Adolygiadau Datblygiad Personol;
- Gweddarlledu cyfarfodydd;
- Adroddiadau Blynyddol Aelodau;
- Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol;
- Digonolrwydd y trefniadau i gefnogi swyddogaethau'r Aelodau;
- Y gyllideb ar gyfer 2015/16 a'r effaith ar y Gwasanaethau Democrataidd.

**2.0 Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad.

**Huw Jones**
**Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Democrataidd**
**22/09/15**

This page is intentionally left blank